**Siaradwr Gwadd: Yr Athro Sioned Davies, yn trafod ei adroddiad 'Adolygiad o Gymraeg Ail Iaith'.**

1) **Cyflwyniad gan Keith Davies AC (cadeirydd)**

2) **Yn bresennol**

Keith Davies AC, Athro Sioned Davies, Simon Thomas AC, Alun Ffred Jones AC, Lowri Hughes (AMSS Keith Davies), Colin Nosworthy (Cymdeithas), Penri Williams (Dathlu'r Gymraeg), Ffred Ffransis (Cymdeithas), Gwyn Williams (swyddfa Comisiynydd y Gymraeg), Dafydd Idris Edwards (Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru), Dr Hywel Glyn Lewis (Prifysgol y Drindod Dewi Sant), David Wyn (Cynghrair Cymunedau Cymraeg), Rhian Jones (Coleg Cymraeg Cenedlaethol), Carys  Moseley (Swyddog Cyswllt Adran Eglwys a Chymdeithas, Eglwys Bresbyteraidd Cymru), Meryl Davies ( Llywydd Cenedlaethol Merched y Wawr).

**Ymddiheuriadau**

Aled Roberts AC, Bethan Jenkins AC, Mike Hedges AC, Suzy Davies AC, Ceri Owen (RhAG), Gwenllian Lansdown Davies (Mudiad Meithrin), Dylan Foster Evans (Prifysgol Caerdydd).

3) **Cyflwyniad gan yr Athro Sioned Davies**

Mae nawr yn flwyddyn a hanner ers cyhoeddi'r adroddiad a dyma'r unfed awr ar ddeg.

Trafodwyd sawl thema:

- Statws

Yn gyfredol nid yw'n bwnc craidd yn y cwricwlwm.  Mae'n bwysig er mesur perfformiad; ceir ysgolion a raddiwyd yn 'rhagorol' gan Estyn sydd hefo safonau Cymraeg isel.

- Gweithlu (hyfforddiant)

Mae staffio'n broblem enfawr, weithiau nid yw'r cyfnod hyfforddiant (cymharol fyr) yn ddigon ar gyfer dysgwyr.  Yn ogystal ag ewyllys da, mae angen gweithlu a hyfforddiant

- Cwricwlwm

Er bod y Gymraeg yn bwnc gorfodol, mae pryder bod pynciau eraill weithiau'n cymryd blaenoriaeth ar yr amserlen.

Mae angen pwyslais uwch ar gyfathrebu yn lle dysgu ar y cof - a drafodir yn Donaldson. Weithiau teimlwyd bod mwy o hyder i gynnal sgwrs gan ddysgwyr Blwyddyn 7 na sydd gan rai myfyrwyr hynach ail iaith.

Angen technoleg dda ag adnoddau cyffroes os am gipio sylw. Hynny yw, annog plant i ddysgu'r Gymraeg ar offer TG.

Er y gwnaed gwaith ardderchog gan Fentrau a'r Urdd, mae dal her i gynyddu'r cyfleoedd i ymarfer yr iaith a chael pobl ifanc i ymuno.

Yn Donaldson, rhoddir adran benodol at le'r Gymraeg yn y cwricwlwm, 10 argymell lle fu'r Gymraeg yn hanfodol.

- Dilyniant

Mae'n amser gwaredu â'r term 'ail iaith'. Rhaid edrych ar 'Gontiniwm Iaith', yn enwedig i ddisgyblion sy'n newid o Ysgolion Cynradd Cymraeg at Ysgolion Uwchradd Saesneg.

Rhaid edrych ar y maes yn ei gyd-destun nid mewn gwagle - edrych ar draws y lefelau, nid rhoi nhw ar wahân. Os ydym am roi cyfleoedd i'n plant, mae angen edrych ar rugldеr yn y Gymraeg. Mi roedd disgyblion yn y grwpiau ffocws yn ymwybodol o bwysigrwydd y Gymraeg er pwrpas swyddi.

4) **Cwestiynau o'r llawr**

**Q1** Dr Hywel Glyn Lewis, Prifysgol y Drindod Dewi Sant:

Am newid model gweinyddol cyfredol gydag un addysgiadol, lle mae ffocws ar blant yn dod yn siaradwyr rhugl. Codwyd gwerth am arian y system Cymraeg Ail Iaith, sydd angen ystyried mewn sgîl ei newid.

**Ateb:** nid yw'r model cyfredol yn gweithio, ond ni all newidiadau ddigwydd dros nos. Mae angen buddsoddi yn y gweithlu, a gwneud y proffesiwn athrawon yn un sy'n denu.

**Q2** Alun Ffred Jones AC

Cwestiwn ar fodelau sylfaen. A ddylem edrych yn gyntaf ar ysgolion cynradd os ydym am edrych yn eang ar sut i wella graddau Lefel A?

**Ateb** Wedi llwyddo cael CBAC i newid. I ddechrau yn yr ysgolion cynradd rhaid cael rhywbeth sy'n digwydd mewn tandem.

**Q3** Llawer o gynllunio manwl ar gyfer y drefn newydd, mae'n bwysig iddo fynd i'r cyfeiriad cywir. Ystyried yr angen i'r Gweinidog symud o Gymraeg Ail Iaith at Gontinwwm Iaith.

**Ateb** Yn yr adroddiad mae Ysgolion Cyfrwng Cymraeg yn gweithio fel canolbwynt. Mae angen ystyried rhywbeth radical, nid dim ond chwarae o gwmpas â'r model cyfredol. Mae maint y dasg weithiau'n methu pobl ar ble i ddechrau, ond mae modelau academaidd ar gael.

**Q4** Colin Nosworthy (Cymdeithas)

Mi roedd Prif Weinidog Cymru o flaen Pwyllgor craffu wythnos diwethaf ac yn dweud nad oedd wedi anghofio am yr adroddiad o gwbl. Beth fyddech chi'n hoffi gweld yn fuan?

**Ateb** Awgrymwyd i'r Llywodraeth yn gynnar wedi'r adroddiad bod llawer allem wneud yn syth sydd â chostau cymharol isel. e.e. hybu gyrfaoedd, codi statws drwy newid ethos mewn ysgolion, codi ymwybyddiaeth iaith. Mae gan Brifysgol Caerdydd prosiect 'Ieithoedd i Bawb', sydd nawr yn cynnwys y Gymraeg. Ceir digon o ymarfer da a ellir trosglwyddo i ysgolion eraill

**Q5** Penri Williams (Dathlu'r Gymraeg)

Rydym yn agos at etholiad Cynulliad 2016 - sut y gallwn weithio ar Lywodraeth Cymru i weithredu ar yr argymhellion gyda'r adnoddau sydd gennym?

**Ateb:** ystyried y posibilrwydd o greu ysgol beilot i fonitro llwyddiant ac ymwybyddiaeth a dangos yr allbwn.

5) **Trafod pwnc y cyfarfod nesaf**

Bydd y cyfarfod nesaf yn digwydd ar Faes yr Eisteddfod ym mis Awst eleni.

6) **Unrhyw fusnes arall**